

<b>THEMA UN: YCHWANEGU GWERTH AT HUNANIAETH LEOL AC ADNODDAU NATURIOL A DIWYLLIANNOL</b>	
<b>AMCAN SY'N BENODOL I'R STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL</b>	<b>BLAENORIAETHAU LEADER</b>
1.1 Datblygu a gweithredu rhaglen fuddsoddi a all ennyn diddordeb ymwelwyr a buddsoddwyr yn yr ardal	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Darparu pecyn gweithgareddau i newid canfyddiadau ynghylch twristiaeth fel gyrfa er mwyn cefnogi twf cyflogaeth o fewn busnesau'r economi ymwelwyr.</li> <li>➤ Datblygu a chyflawni rhaglen cymorth busnes i roi hwb a'r awydd i gystadlu i busnesau bach a chanolig yn yr economi ymwelwyr a'u galluogi i gael mynediad i farchnadoedd newydd a rhai sy'n egino</li> <li>➤ Archwilio'r ffyrdd presennol y mae Sir Gaerfyrddin yn cael ei marchnata fel lle i weithio ynddo er mwyn nodi a oes unrhyw fylchau/gwerth ychwanegol y gallai cyllid LEADER fynd i'r afael ag ef.</li> <li>➤ Ymchwilio i ffyrdd arloesol o sicrhau bod digwyddiadau yn gynaliadwy yn ariannol, a threialu'r ffyrdd hynny;</li> <li>➤ Hyrwyddo cynyddu arwynebedd coedwigoedd a chefnogi sicrhau bod rheolaeth briodol ar goedwigoedd presennol sy'n rhoi bod i nifer o fanteision ar gyfer yr amgylchedd, yr economi leol ac iechyd a lles pobl.</li> <li>➤ Nodi a threialu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth ar raddfa tirweddau drwy wella cysylltedd rhwng safleoedd dynodedig (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) a chynefinoedd wedi eu lled-wella.</li> <li>➤ Nodi a threialu ffyrdd newydd o weithio mewn dalgylchoedd cyfan i reoli maetholion a chynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydrolegol</li> </ul>
1.2 Cefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg.	
1.3 Nodi cyfleoedd i ddatblygu "atebion seiliedig ar natur" i wella gallu ein hamgylchedd naturiol i barhau i gynnal iechyd a lles dynol, yn awr ac yn y dyfodol.	
1.4 Nodi a threialu ffyrdd o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn lleol - gan gynnwys camau lliniaru ac addasu, gan ganolbwyntio'n benodol ar wytnwch ecosytemau lleol.	



<p>1.5 Datblygu ffyrdd o wella bioamrywiaeth ac ychwanegu gwerth at gymeriad unigryw treftadaeth naturiol Sir Gaerfyrddin.</p>	
<p><b>THEMA DAU: HWYLUSO DATBLYGIAD CYN-FASNACHOL; PARTNERIAETHAU BUSNES A CHADWYNI CYFLENWI BYR</b></p>	
<p>2.1 Gwella gwytnwch cyflogwyr cynhenid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Nodi a threialu ffyrdd arloesol o godi ymwybyddiaeth o'r sector bwyd a diod yn ogystal â datblygu cadwyni cyflenwi bwyd lleol</li> <li>➤ Archwilio a datblygu menter lleoliadau gwaith yn ystod yr haf er mwyn i bobl ifanc gael mynediad at brofiad gwaith pwrpasol yn ogystal â bod yn 'barod am waith'</li> <li>➤ Datblygu rhaglen atyniadol o siaradwyr busnes/sector i annog entrepreneuriaeth/uchelgais/ysbrydoliaeth ymhlith pobl ifanc, gan dargedu sectorau blaenoriaeth a chyfleoedd gwledig yn arbennig</li> <li>➤ Profi a threialu ffyrdd newydd o wella gwytnwch busnesau gwledig, e.e. cynyddu mynediad at wybodaeth am y farchnad; hwyluso datblygiadau o ran cadwyni cyflenwi a threialu mynediad at ffynonellau cyllid amgen ar gyfer prosiectau arloesol, megis cyllido torfol;</li> <li>➤ Treialu dulliau arloesol o baru pobl ifanc â chyfleoedd gwaith yn y dyfodol;</li> <li>➤ Hwyluso ac ymchwilio i ddatblygiad cynnyrch arloesol yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth drwy ymchwil ac astudiaethau dichonoldeb, a threialu hynny, a hwyluso ac ymchwilio i ffyrdd o gefnogi datblygiadau o ran cadwyni cyflenwi yn y sectorau garddwriaeth a choedwigaeth, a threialu'r ffyrdd hynny;</li> <li>➤ Hwyluso datblygiad rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol mewn perthynas ag</li> </ul>
<p>2.2 Darparu cyngor a chymorth busnes wedi'u teilwra er mwyn cadw a datblygu.</p>	
<p>2.3 Cynyddu cyfleoedd gwaith drwy gefnogi twf o ran cyflogaeth o fewn busnesau cynhenid.</p>	
<p>2.4 Cefnogi pobl i fynd i waith.</p>	
<p>2.5 Datblygu diwylliant mwy entrepreneuriaidd.</p>	
<p>2.6 Sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn gyson ag anghenion cyflogwyr, a'u bod yn llywio hynny.</p>	
<p>2.7 Cryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau bach a chanolig a chyfleusterau ymchwil.</p>	



<p>2.8 Cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau amaethyddiaeth a choedwigaeth.</p>	<p>amaethyddiaeth a choedwigaeth;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Ymchwilio i fodel ar gyfer ffermydd hybu a thenantiaethau tymor byr i gefnogi pobl ifanc i ddod i'r sector, a threialu hynny.</li> <li>➤ Rhedeg cynlluniau peilot sy'n ychwanegu gwerth at goed a chynlluniau lleol sy'n hwyluso cadwyni cyflenwi lleol a byr, gan edrych yn arbennig ar gyfleoedd i ddefnyddio coed Cymreig yn y diwydiant adeiladu.</li> </ul>
<p><b>THEMA TRI: ARCHWILIO FFYRDD NEWYDD O DDARPARU GWASANAETHAU LLEOL ANSTATUDOL</b></p>	
<p>3.1 Cefnogi pobl i fynd i waith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Hwyluso a threialu ffyrdd arloesol o sicrhau mynediad i drafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig e.e. trafndiaeth gymunedol; Beicio</li> <li>➤ Hwyluso a threialu prosiectau sy'n dilyn ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gofal cymdeithasol mewn cymunedau gwledig.</li> </ul>
<p>3.2 Sicrhau mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau a chefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol.</p>	
<p>3.3 Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol</p>	
<p><b>THEMA PEDWAR: YNNI ADNEWYDDADWY AR LEFEL GYMUNEDOL</b></p>	
<p>4.1 Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn sgil ynni gwyrddach.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Ymchwilio i ddichonoldeb ynni adnewyddadwy ar y fferm drwy ymchwil, astudiaethau dichonoldeb; Ymweliadau cyfnewid a chynlluniau peilot;</li> <li>➤ Ymchwil i gynhyrchion cynaliadwy sy'n gysylltiedig â sectorau</li> </ul>



<p>4.2 Cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau amaethyddiaeth a choedwigaeth.</p>	<p>amaethyddiaeth/coedwigaeth e.e. bio-tanwyddau i ehangu'r ystod o ffynonellau incwm ar gyfer teuluoedd sy'n ffermio yn ogystal â rhoi cyfleoedd cyflogaeth newydd i ardaloedd gwledig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Hybu dealltwriaeth o egni a chanlyniadau ei ddefnydd aneffeithlon. Yn lleo ar ffurf tloedi tanwydd, biliau ynni uchel ac amodau byw anghyfforddus. Fyd-eang wrth gyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Hyrwyddo "llythrennedd ynni " mewn ysgolion, colegau a chyda thalwyr biliau. Felly cynnig syniadau ac atebion i aneffeithlonrwydd ynni a llosgi tanwyddau ffosil sy'n berthnasol i gefn gwlad Sir Gaerfyrddin.</li> </ul>
<p><b>THEMA PUMP: MANTEISIO AR DECHNOLEG DDIGIDOL</b></p>	
<p>5.1 Cefnogi ac annog mwy o fusnesau bach a chanolig i fanteisio ar dechnolegau newydd, a'u defnyddio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod busnesau /y trydydd sector / cymunedau yn gallu manteisio ar y buddion sy'n deillio o argaeledd band eang cyflym iawn, a threialu'r ffyrdd hynny.</li> </ul>
<p>5.2 Sicrhau mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau a chefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Hwyluso a threialu ffyrdd arloesol o fynd i'r afael ag allgáu digidol a sicrhau pwyntiau mynediad TGCh cyhoeddus.</li> <li>➤ Archwilio manteision Wi-Fi a'i gymhwysiad mewn trefi marchnad wledig.</li> </ul>
<p>5.3 Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael o gytundeb Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf</p>	

